# CYLCHLYTHYR RHIENI / GOFALWYR
Haf 2026

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd**

## Croeso



Rydym yn falch o gael eich croesawu i dymor prysur arall i'n cynghorwyr gyrfa sy'n gweithio mewn ysgolion ledled Cymru. Yr haf hwn, ein prif flaenoriaeth yw adolygu'r adborth o'r arolwg Gwirio Gyrfa ar gyfer eleni, a defnyddio'r mewnwelediadau hyn i lunio a gwella'r hyn yr ydym yn ei gynnig i ysgolion a disgyblion yn y flwyddyn academaidd nesaf. Gallwch ddarllen mwy am ganfyddiadau'r arolwg nes ymlaen yn y cylchlythyr hwn.



Bydd llawer o ddysgwyr Blwyddyn 10 yn cael y cyfle i ymgymryd â chyfweliadau gyrfaoedd yn yr ysgol yn ystod tymor yr hâf, a fydd yn eu helpu i archwilio eu diddordebau a chynllunio ymlaen llaw. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n cymryd eu camau nesaf, boed hynny'n symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, neu eu bod yn dal i ystyried eu hopsiynau. I gael rhagor o fanylion am ein gwasanaethau, a chyfarwyddyd ar ddewisiadau eich plentyn ar ôl Blwyddyn 11, ewch i:

Eich plentyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11



Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n ymadael â'r ysgol gydol yr haf, ac yn cynnig arweiniad a chymorth wrth iddynt gychwyn ar eu camau nesaf. Yn ogystal â hyn, rydym yma i ddysgwyr mewn addysg bellach neu ym Mlynyddoedd 12 ac 13 sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant, trwy eu cynorthwyo i ddod o hyd i leoliadau gwaith addas.

Mae'r paratoadau yn mynd rhagddynt hefyd ar gyfer yr arolwg cenedlaethol blynyddol ynghylch hynt disgyblion, ac efallai y byddwch yn clywed gennym wrth i ni gasglu gwybodaeth am gynlluniau eich plentyn ar gyfer y dyfodol.

Os hoffech wybod mwy am ein harolwg blynyddol ynghylch hynt disgyblion, gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gamau nesaf y disgyblion a ymadawodd â'r ysgol y llynedd yma:

Hynt Disgyblion 2025

# Nosweithiau rhieni ar-lein



Yn dilyn llwyddiant ysgubol y noson rhieni ar-lein a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru ym mis Mawrth eleni, rydym yn falch o gael cyhoeddi y bydd cyfres o ddigwyddiadau ar-lein ar gael i rieni a gofalwyr ledled Cymru o hyn ymlaen. Mae'r sesiynau hyn wedi eu cynllunio i'ch helpu i aros yn wybodus a chymryd rhan weithredol yn y broses o gynllunio addysg a gyrfa eich plentyn:

- **Mehefin 2026 – Dysgwyr Blwyddyn 10**
- **Medi – Dysgwyr ôl-16**
- **Tachwedd – Dysgwyr Blwyddyn 11**
- **Mawrth – Dysgwyr Blynyddoedd 8/9**

Mae'r nosweithiau ar-lein hyn, a gynhelir drwy gyfrwng Microsoft Teams, yn cynnig cyfle i chi drafod dyheadau a chamau nesaf eich plentyn â chynghorydd gyrfa cymwys. P'un a oes gennych gwestiynau am lwybrau gyrfa neu opsiynau ôl-16, neu os ydych yn chwilio am gyngor ar y ffordd orau i gynorthwyo eich plentyn wrth iddo wneud penderfyniadau, mae ein tîm yma i'ch helpu chi.
Bydd ysgolion yn rhannu gwybodaeth ar sut i drefnu apwyntiad â rhieni a gofalwyr cyn pob digwyddiad. Rydym yn eich annog i fanteisio ar y cyfleoedd hyn i gynorthwyo taith addysgol a gyrfaol eich plentyn.



**Gallwch hefyd gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiadau hyn drwy ddilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:**

- Facebook
- Instagram
- X

# Cynorthwyo pobl ifanc i wneud dewisiadau hyderus am eu dyfodol

Yma mae Amie Field, ein Cyfarwyddydd Cyflenwi Gwasanaethau, yn rhannu mwy am ei thaith, effaith ein gwasanaethau, a'r cymorth sydd ar gael ledled Cymru.

## Taith Amie

Rydw i wedi bod yn gweithio i Gyrfa Cymru ers bron i 20 mlynedd, ac rydw i wedi cael ystod eang o rolau ar draws y sefydliad. Dechreuais ym maes cyfarwyddyd gyrfaoedd a gweithio fy ffordd trwy amrywiol feysydd, gan gynnwys cyswllt busnes a TG, cyn dod yn Bennaeth Gwasanaethau i Bobl Ifanc ac, yn fwy diweddar, yn Gyfarwyddydd Cyflenwi Gwasanaethau.

Waeth beth fo'r rôl, y peth pwysicaf yw'r effaith rydyn ni'n ei chael. Mae pob penderfyniad yn ymwneud â'r un cwestiwn: pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau?

## Cymorth i bobl ifanc

Mae gan bob ysgol yng Nghymru gynghorydd Gyrfa Cymru, a chaiff pob unigolyn ifanc gynnig cyfweliad cyfarwyddyd gyrfaoedd cyn iddynt ymadael ag addysg orfodol. Byddwn yn annog rhieni i gefnogi eu plentyn i fanteisio ar y cynnig hwn. Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc drafod eu syniadau, eu pryderon a'u hopsiynau â chynghorydd cymwys, ar adeg pan y gall penderfyniadau deimlo'n llethol.

Rydym yn gweithio'n agos ag ysgolion i wneud dysgu am yrfaoedd yn rhywbeth ystyrlon a pherthnasol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau grŵp ar opsiynau ôl-16 ac ôl-18, yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad lafur, sy'n helpu pobl ifanc i ddeall pa swyddi sydd ar gael, a pha sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae ein gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr yn dod â phobl o wahanol ddiwydiannau ynghyd â disgyblion i siarad am swyddi go iawn a llwybrau gyrfa, a sut y mae'r hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ysgol yn trosi i'r byd gwaith. Rydym hefyd ar gael mewn nosweithiau rhieni, i roi cyfle i deuluoedd ofyn cwestiynau, a rhoi sicrwydd iddynt.



## Amie Field

**Teitl y swydd:**
Cyfarwyddydd Cyflenwi Gwasanaethau

## Sut beth yw cyfarwyddyd gyrfaoedd heddiw

Mae cyfarwyddyd gyrfaoedd heddiw yn wahanol iawn i'r hyn y mae llawer o oedolion yn ei gofio. Mae cyfweliad cyfarwyddyd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen ar bobl ifanc i reoli eu gyrfaoedd dros amser.

Rydym yn archwilio diddordebau a chryfderau yr unigolyn ifanc, a'r meysydd y mae'n dymuno eu datblygu. Rydym yn ei gefnogi i feithrin sgiliau fel hyder, cymhelliant, gwydnwch ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd, ac yn helpu i gysylltu'r rhain â llwybrau ar gyfer y dyfodol. Ein rôl ni yw helpu pobl ifanc i deimlo eu bod wedi eu harfogi i lywio'r byd gwaith, sy'n newid yn barhaus.

## Cymorth i rieni hefyd

Mae rhieni'n chwarae rhan hynod ddylanwadol yn y penderfyniadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud, ac rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hynny. Mae cefnogi rhieni yn flaenoriaeth i ni. Hoffwn i rieni wybod hefyd nad cymorth i bobl ifanc yn unig yw'r hyn y mae Gyrfa Cymru yn ei gynnig. Gall oedolion gael mynediad at gyfarwyddyd gyrfaoedd eu hunain trwy Cymru'n Gweithio.

Drwy gydweithio, gallwn helpu pobl ifanc i deimlo'n wybodus, yn hyderus, a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth iddynt gymryd eu camau nesaf.

# Gwirio Gyrfa

## A wyddech chi...? bod dros 28,000 o bobl ifanc yn cwblhau ein harolwg Gwirio Gyrfa bob blwyddyn.

Gwahoddir pob ysgol yng Nghymru i gymryd rhan yn yr arolwg. Gofynnir cyfres o gwestiynau i ddisgyblion, sy'n helpu cynghorwyr gyrfa yr ysgolion i ddeall ac asesu eu sgiliau rheoli gyrfa. Ar hyn o bryd, mae ein cynghorwyr gyrfa yn cynorthwyo disgyblion Blwyddyn 10, ledled Cymru, i gwblhau'r arolwg cyn diwedd tymor yr haf.

Siaradwch â'ch plentyn, a gofynnwch iddo am yr arolwg. Efallai y gallech chi drafod rhai o'i atebion – efallai yr hoffai'ch plentyn ddysgu mwy am rai o'i syniadau gyrfa, neu am rai o'r opsiynau sydd ar gael iddo ar ôl cwblhau Blwyddyn 11.

Gallwch ddod o hyd i awgrymiadau ar gyfer sgyrsiau gyrfa a syniadau gyrfa sy'n gysylltiedig â sgiliau, diddordebau a hoff bynciau eich plentyn.

[Archwilio syniadau gyrfa gyda'ch plentyn]

Os hoffech chi gael gwybod mwy am opsiynau ôl-16, gallwch edrych yma.

[Opsiynau yn 16 oed | Gyrfa Cymru]

Cwblhaodd pobl ifanc a oedd yn ymadael â Blwyddyn 11 yr haf hwn yr arolwg hwn yn ystod haf 2025. Dyma grynodeb o rai o'u hatebion:

**Y camau nesaf a ffefrir oedd:**

1. Dechrau addysg llawn amser yn y coleg
2. Dechrau addysg llawn amser yn yr ysgol
3. Dechrau prentisiaeth

**Y pum dewis galwedigaethol mwyaf poblogaidd yn gyffredinol (gwrywod a benywod gyda'i gilydd) oedd:**

1. Adeiladu ac adeiladwaith
2. Peirianneg
3. Iechyd a meddygol
4. Hamdden, chwaraeon a thwristiaeth
5. Dim syniadau

**Y pum dewis galwedigaethol mwyaf poblogaidd i fenywod oedd:**

1. Iechyd a meddygol
2. Gofal plant
3. Gwallt a harddwch
4. Celf a dylunio
5. Y gyfraith

**Y pum dewis galwedigaethol mwyaf poblogaidd i wrywod oedd:**

1. Adeiladu ac adeiladwaith
2. Peirianneg
3. Hamdden, chwaraeon a thwristiaeth
4. Dim syniadau
5. Cyfrifiaduron, meddalwedd a TG

Mae dadansoddi canlyniadau gwirio gyrfa yn awgrymu bod sgiliau rheoli gyrfa pobl ifanc yng Nghymru yn dda yn gyffredinol, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai cymhelliant a hunanymwybyddiaeth yw'r nodweddion cryfaf. Mae hyn yn helpu cynghorwyr gyrfa mewn ysgolion i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf priodol i ddiwallu anghenion pobl ifanc.

Bydd cynghorwyr gyrfa mewn ysgolion yn dadansoddi ymatebion yr arolwg gwirio gyrfa dros yr ychydig fisoedd nesaf, a byddant yn gwahodd eich plentyn i gyfweliad yn yr ysgol. Mae'n bwysig annog eich plentyn i fynd i'w gyfweliad er mwyn iddo allu trafod ei syniadau gyrfa yn fanylach, ac efallai darganfod mwy am feysydd gwaith sy'n llai cyfarwydd iddo. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl ifanc sy'n mynd i'w cyfweliadau gyrfaoedd yn yr ysgol hyd at 42% yn fwy tebygol o fod yn ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant ar ôl Blwyddyn 11.

Dysgwch sut i baratoi ar gyfer cyfarfod gyda chynghorydd gyrfa, ac am ba reswm, yma.

[Helpwch eich plentyn i fanteisio i'r eithaf o weld cynghorydd gyrfa]

# Sut allwn ni helpu eich plentyn

## Straeon go iawn

Gyda chymorth gyrfa wedi ei deilwra, teimlai Jude ei fod wedi cael ei ddeall, ac mae'n bositif am ei ddyfodol.

Roedd mab Lucy mewn addysg ol-16 pan daeth hi'n ymwybodol o gyfarwyddyd gyrfaoedd am y tro cyntaf.

Roedd Jude, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, eisoes wedi cwrdd ag Alison, y cynghorydd gyrfa, drwy'r ysgol.

Dros amser, dechreuodd Lucy ddeall pa mor werthfawr oedd cyngor a chyfarwyddyd gyrfa cyson i'w mab.

## Y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir

Wrth i Jude fynd yn hŷn, roedd ei adolygiadau blynyddol yn dechrau canolbwyntio mwy ar ei baratoi i fod yn oedolyn, a daeth rôl Alison i'r amlwg yn fwy. Helpodd hyn bawb i lunio darlun cliriach o'r hyn a fyddai, a'r hyn na fyddai yn gweithio i Jude.

**"Gwnaeth Alison ei ddeall yn eithaf cyflym," meddai Lucy. "Mae hi wedi deall ei fod yn hoff iawn o fod allan yn yr awyr agored. Tydi o ddim yn academaidd iawn, ond mae e'n ymarferol iawn."**

rhywbeth yr oedd Alison yn ei barchu o'r cychwyn cyntaf.

**"Bydd e'n dweud yn syth a fydd e'n fodlon gwneud rhywbeth ai peidio," meddai Lucy gan chwerthin. "Felly, sylweddolodd Alison yn eithaf cyflym fod angen iddi weithio gyda'r hyn a oedd yn ei gymell"**

## Pwysigrwydd gwrando

Un peth a oedd yn amlwg i Lucy a Jude oedd pa mor ofalus yr oedd Alison yn gwrando.

Mae Lucy yn cofio, **"Os byddai e'n dweud wrthi nad oedd e eisiau gwneud rhywbeth, fyddai hi ddim yn ei orfodi. Roedd hi'n gwrando ar yr hyn yr oedd e eisiau ei wneud ac yn dod o hyd i rywbeth a oedd yn addas iddo."**

Mae Jude yn cytuno, **"Roedd y sesiynau yn dda. Mae Alison yn gyfeillgar iawn, ac mae hi'n gwrando."**




## Stori Lucy a Jude



*"Roedd y sesiynau yn dda. Mae Alison yn gyfeillgar iawn, ac mae hi'n gwrando."*
*Jude*

Gan fod Alison yn deall bod Jude wrth ei fodd yn beicio mynydd a bod yn yr awyr agored, byddai'n canolbwyntio ar gyfleoedd a oedd yn cyd-fynd â'r diddordebau hynny. Ar ôl diystyru opsiynau nad oeddent yn iawn, gan gynnwys canolfannau awyr agored yn cynnwys chwaraeon dŵr, bu Alison yn cysylltu â busnesau lleol yn gysylltiedig â beicio i chwilio am brofiad gwaith.

## Magu hyder trwy brofiad gwaith

Yn hydref 2025, dechreuodd Jude brofiad gwaith yn Alpkit, siop feiciau awyr agored. Byddai'n treulio un diwrnod yr wythnos yn gweithio ochr yn ochr â mecanydd beiciau. Yn fuan ar ôl i'r staff weld pa mor dda yr oedd yn ffitio i mewn, trodd yr hyn a ddechreuodd fel tair wythnos yn bump wythnos.

"Roedden nhw'n falch iawn ohono," eglurodd Lucy. "Fe wnaethon nhw hyd yn oed gysylltu ag Alison i ddweud, pe byddai ganddyn nhw ddigon o waith, y gallai ddod yn ôl eto yn y gwanwyn."
I Jude, gwnaeth y profiad wahaniaeth gwirioneddol. Roedd yn arbennig o hoff o waith ymarferol. "Dysgais i lwyth o bethau," meddai.

"Fe helpais i werthu cwpwl o feiciau, a golchi beiciau. Gwnes i lwyth o bethau gwahanol. Roedden nhw hefyd yn gyfeillgar iawn."
Ychwanegodd Lucy, "Roedd e'n cael gwneud pethau, nid dim ond sefyll a gwylio. Doeddwn i ddim yn poeni amdano yno. Roedd yn teimlo bron fel rhan o'r tîm yno."

## Edrych tua'r dyfodol gyda chymorth a thawelwch meddwl

Er bod Jude yn dal i bwyso a mesur ei gamau nesaf, mae Alison wedi parhau i'w helpu trwy gysylltu â cholegau ac ystyried opsiynau realistig sy'n cyd-fynd â chryfderau a diddordebau Jude. Yn ddiweddar, cafodd Jude ei dderbyn ar gwrs lefel mynediad yng Ngholeg Llysfasi.
Mae Lucy yn teimlo'n dawel ei meddwl gan wybod nad ydyn nhw'n llywio'r dyfodol ar eu pen eu hunain.

"Mae'n anodd pan fyddwch chi'n syrthio rhwng dwy stôl – pan nad ydych chi'n addas ar gyfer sgiliau byw'n annibynnol, ond nad ydych chi'n academaidd chwaith," eglurodd Lucy. "Ond mae'n helpu'n fawr cael rhywun sy'n deall hynny ac yn gofalu am Jude."

I Lucy, y fantais fwyaf fu gwybod bod rhywun arall yn deall Jude fel unigolyn.




## Stori Lucy a Jude



*"Does gennych chi ddim byd i'w golli, mewn gwirionedd. Mae'n gyngor am ddim, ac maen nhw'n gwybod am bethau nad ydych chi'n eu gwybod. Mae'n braf cael rhywun arall yn gofalu amdanoch chi."*
*Lucy, Mam Jude*

# Digwyddiadau'r haf

Mae Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio yn paratoi ar gyfer haf cyffrous, gyda chynlluniau i gymryd rhan yn y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol unwaith eto. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle gwych i bobl ifanc a'u teuluoedd ymgysylltu â chynghorwyr gyrfa a darganfod amrywiaeth o adnoddau, canllawiau a chymorth ar gyfer eu llwybrau yn y dyfodol

Rydym wedi trefnu rhaglen fywiog o weithgareddau rhyngweithiol ym mhob digwyddiad, wedi eu cynllunio i ysbrydoli'r ymwelwyr, ac i rannu gwybodaeth. P'un a ydych yn ystyried eich camau nesaf ar ôl ymadael â'r ysgol, yn archwilio opsiynau gyrfa, neu'n chwilio am ffyrdd hwyliog a diddorol o ddysgu, bydd rhywbeth at ddant pawb

Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni yn y digwyddiadau canlynol yn ystod yr haf:

- **Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, 20–23 Gorffennaf**
- **Yr Eisteddfod Genedlaethol, Llantwyd, Sir Benfro, 1–8 Awst.**

Am restr lawn o ddigwyddiadau Gyrfa Cymru, cliciwch [Digwyddiadau Gyrfa Cymru]

I gael gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymru'n Gweithio, porwch drwy'r wefan [Digwyddiadau Cymru'n Gweithio]

Dyma rai uchafbwyntiau o ddigwyddiadau'r haf blaenorol i chi gael syniad o'r hyn y gallwch ei ddisgwyl.










# Swyddi tymhorol yr haf



**Pam ddylai eich plentyn ystyried cael swydd dros yr haf? Dyma bum budd allweddol y gall gweithio dros yr haf eu cynnig:**

## 1 Ennill profiad ymarferol

Mae swydd dros yr haf yn rhoi profiad gwerthfawr o'r byd go iawn, ac yn helpu i adeiladu CV eich plentyn a rhoi hwb i'w ragolygon gwaith yn y dyfodol.

## 2 Datblygu sgiliau ariannol

Drwy ennill eu cyflogau eu hunain, mae pobl ifanc yn dysgu sut i gyllidebu, cynilo a rheoli eu harian yn gyfrifol.

## 3 Meithrin hunanhyder

Gall mynd i mewn i fyd gwaith a chael cyflog rheolaidd roi hwb sylweddol i hunan-gred ac annibyniaeth unigolyn ifanc.

## 4 Archwilio diddordebau a dewisiadau gyrfa

Mae ymgymryd â gwahanol rolau yn caniatáu i'ch plentyn gael blas ar wahanol ddiwydiannau, darganfod beth sydd o ddiddordeb iddo, a dechrau gwneud cysylltiadau ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

## 5 Datblygu sgiliau trosglwyddadwy

O reoli amser a chwblhau mewn pryd, i gyfathrebu â chydweithwyr a goruchwylwyr, mae swyddi tymhorol yn helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau hanfodol sy'n werthfawr mewn unrhyw yrfa.

Mae ein gwefan yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd swyddi tymhorol dros yr haf, yn lleol ac ar draws y DU, ynghyd â chyngor arbenigol ar sut i wneud cais. Gan fod llawer o gyflogwyr yn dechrau hysbysebu swyddi o fis Mawrth ymlaen, mae'n syniad da i annog eich plentyn i ddechrau chwilio yn gynnar.
I gael gwybod mwy am swyddi gwag tymhorol a chael awgrymiadau gwych ar sut i wneud cais llwyddiannus, ewch i'n gwefan. Mae paratoi yn gynnar yn hanfodol, felly cefnogwch eich plentyn i archwilio cyfleoedd a chyflwyno eu ceisiadau cyn gynted â phosibl o fis Mawrth ymlaen.

↗ Swyddi haf tymhorol | Gyrfa Cymru

# Llywio'r camau nesaf a chanlyniadau arholiadau

**Gall tymor yr haf fod yn gyfnod pryderus i ddysgwyr a'u rhieni / gofalwyr wrth iddynt aros am ganlyniadau arholiadau a llywio'r camau nesaf. Mae Fiona, cynghorydd gyrfa sydd wedi ei lleoli yng Ngwynedd yn rhannu rhai awgrymiadau gwych.**

Ni waeth beth yw graddau eich plentyn, gallwch fod yn dawel eich meddwl o wybod bod llwybr addas i waith, hyfforddiant neu addysg bellach ar ei gyfer.

Yn y cyfnod cyn diwrnod y canlyniadau, rhowch dawelwch meddwl i'ch plentyn y byddwch chi yno i'w gefnogi beth bynnag sy'n digwydd. Cofiwch ei atgoffa, hyd yn oed os nad yw pethau'n disgyn i'w lle fel yr oedd wedi ei gynllunio, nad yw'n ddiwedd y byd. Neilltuwch amser i drafod ei ddisgwyliadau ac a ydyw wedi ystyried cynllun wrth gefn.

Gwrandewch ar unrhyw bryderon sydd gan eich plentyn. Gall trafod pethau roi heriau yn eu gwir oleuni. Os ydyw'n teimlo'n bryderus, anogwch eich plentyn i ymlacio a dod o hyd i bethau iach i dynnu ei sylw.

Gan fod pawb yn cael eu canlyniadau ar yr un pryd, mae'n naturiol y bydd eich plentyn yn cymharu ei hun â ffrindiau a chyd-ddisgyblion. Cofiwch ei atgoffa yn ofalus fod sefyllfa a thaith pawb yn wahanol.



## Fiona Soar

**Teitl y swydd:**

Cynghorydd Gyrfa

**Ysgol:**

Ysgol y Moelwyn, Ysgol Godre'r Berwyn, Ysgol Ardudwy a Ysgol Bro Idris.

## Ar ddiwrnod y canlyniadau

Rhowch sicrwydd i'ch plentyn a chi'ch hun fod hwn yn gyfle cyffrous i ystyried y camau nesaf. Helpwch eich plentyn i deimlo bod ganddo reolaeth dros ei benderfyniadau.

Os nad yw eich plentyn yn cael y canlyniadau yr oedd yn gobeithio amdanynt, rhowch sicrwydd iddo ei bod hi'n iawn cymryd seibiant cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Anogwch drafodaethau agored am y camau nesaf posib, a chofiwch ei atgoffa bod angen ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael. Mae pawb yn wynebu siom ar ryw adeg. Efallai mai dyma'r tro cyntaf i'ch plentyn wynebu hynny.

Anogwch eich plentyn i ymchwilio i'r opsiynau rydych chi wedi siarad amdanynt gyda'ch gilydd. Gall cymryd cyfrifoldeb am ddod o hyd i ddatrysiad helpu i feithrin ei hyder. Efallai bod ail-sefyll arholiadau yn un opsiwn, ond os nad yw hynny'n teimlo'n iawn i'ch plentyn, mae digon o lwybrau eraill y gall edrych ymlaen atynt.

Fel arall, os yw canlyniadau eich plentyn yn well na'r disgwyl, cofiwch ei atgoffa y gallai cyfleoedd newydd a chyffrous fod yn agored iddo nawr.

## Mae fy nghydweithwyr a minnau yma i helpu bob amser.

Os yw amgylchiadau eich plentyn yn newid, neu os ydyw'n teimlo ei fod wedi dewis llwybr nad yw'n addas iddo, cofiwch nad ydych chi ar eich pen eich hun. Gallwch wneud apwyntiad gyda ni bob amser. Rydym yma i'ch helpu chi'ch dau i gynllunio'r ffordd ymlaen.

# Trefnwch apwyntiad

A oeddech chi'n gwybod ein bod ni'n cynorthwyo oedolion hefyd?Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn darparu ystod eang o gymorth yn cynnwys mynediad i hyfforddiant, uwchsgilio, cyllid, a help gydag ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad.

**Cymru'n Gweithio**
**Working Wales**


Gallwch drefnu apwyntiad gyda chynghorydd gyrfa yma

## Mae Cymru'n Gweithio yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd am ddim os ydych yn 16 oed neu'n hŷn.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod yr amrywiaeth o ffyrdd y gallwn eich cefnogi ar eich camau nesaf:

- Cyngor ynglŷn â gwaith
- Bwletin swyddi
- Cymorth ar ôl colli swydd
- Prentisiaethau
- Ar ôl gadael yr ysgol
- Gwarant i bobl ifanc

www.cymrungweithio.llyw.cymru



## Cysylltwch â ni

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- E-bost **post@gyrfacymru.llyw.cymru**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy **www.gyrfacymru.llyw.cymru**
- Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfaoedd**

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol